

**MOLD TOWN COUNCIL  
CYNGOR TREF YR WYDDGRUG**

Town Hall  
Earl Road  
Mold  
Flintshire  
CH7 1AB

Telephone: 01352 758532  
Fax: 01352 755804



[www.moldtowncouncil.org.uk](http://www.moldtowncouncil.org.uk)

Neuadd y Dref  
Ffordd yr Iarll  
Yr Wyddgrug  
Sir y Fflint  
CH7 1AB

Ffôn: 01352 758532  
Ffacs: 01352 755804

24 Medi 2021

Aelodau'r Cyngor

Annwyl Gynghorydd

Gofynnir ichi fynychu cyfarfod Cyngor Tref Yr Wyddgrug a gynhelir am **6.00pm ar ddydd Mercher 29 Medi, 2021** trwy gyfrwng fideo-gynadledda Zoom.

Yn ddiffuant,

A handwritten signature in blue ink, appearing to be 'S. Jones', is written over a faint blue line.

Y Clerc a Swyddog Cyllid

**AGENDA**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

**2. DATGANIADAU O FUDD**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fudd y gwyddys amdanynt mewn eitemau ar yr agenda

**3. CYHOEDDIADAU'R MAER**

**4. COFNODION**

4.1 Derbyn a chymeradwyo yn gofnod cywir, Gofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 28 Gorffennaf, 2021 (ynghlwm)

4.2 Derbyn a nodi Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 31 Awst 2021 (ynghlwm)

## **5. CYDADRODDIAD Y SWYDDOGION BUSNES AC ADFYWIO / DIGWYDDIADAU AC YMGYSYLLTU Â'R GYMUNED**

Derbyn cydadroddiad y Swyddogion ar y datblygiadau diweddaraf (ynghlwm).

## **6. ADRODDIAD BLYNYDDOL 2020/21**

Derbyn ac ystyried cymeradwyo fersiwn drafft Adroddiad Blynyddol 2021/22 (ynghlwm).

Mae hyn bellach yn ofyn statudol ar gyfer y sector Cyngorau Tref a Chymuned.

## **7. YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU: CYNNIG I OSTWNG Y TERFYN CYFLYMDER AR STRYDOEDD PRESWYL I 20MYA**

Ystyried sut i ymateb i'r ymgynghoriad hwn pe byddai'r Cyngor Tref dymuno gwneud hynny. Y dyddiad cau yw 1 Hydref 2021.

<https://gov.wales/proposal-reduce-speed-limit-20mph-residential-streets>

## **8. CYFARFODYDD CYNGOR Y DREF AT Y DYFODOL A GOFYNION AR GYFER CYFARFODYDD HYBRID**

Ystyried y canlynol:

- (i) pryd y mae hi'n ddiogel a chyfiawn i gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn y dyfodol agos (yn amodol ar y cyfarwyddyd)
- (ii) y gofyn newydd inni sicrhau bod cyfarfodydd yn hygyrch i'r bobl hynny na allant neu sy'n dewis peidio â'u mynychu'n bersonol; a
- (iii) pha gyllideb y gellir ei chlustnodi ar gyfer caffael yr offer TG perthnasol er mwyn rhoi'r gofynion newydd ar waith.

## **9. NEWYDDION DIWEDDARAF YNGHYLCH CYFARFOD GYDA GWASANAETHAU STRYD CYNGOR SIR Y FFLINT**

Derbyn y newyddion diweddaraf gan y Maer yn deillio o'r cyfarfod a gynhaliwyd gyda Katie Wilby, Rheolwr Gwasanaethau Stryd, a gynhaliwyd ar 21 Gorffennaf.

## **10. LLWYBR MYNEDIAD TAFARN Y RED LION**

Derbyn unrhyw wybodaeth ddiweddar am y sefyllfa

## **11. CYNLLUN AILGYLCHU GWISG YSGOL YSGOL ALUN**

Derbyn adroddiad llafar gan y Cyngorydd Teresa Carberry.

## **12. HYSBYSIAD YNGHYLCH Y PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO**

Nodi'r adroddiad ynghlwm.

## **13. CYFARFODYDD A FNYCHWYD**

Er mwyn i Aelodau roi adroddiad ysgrifenedig i'r Cyngor am unrhyw wybodaeth y maent wedi ei chael gan gyrff allanol.

#### **14. CYFRIFON / TALIADAU**

Cymeradwyo'r drefnlen atodedig sy'n dangos y cyfrifon y gwnaed trefniadau i'w talu – Misoedd 4 a 5 gan nodi bod y taliadau'n cael eu gwneud yn unol â phwerau cynghorau lleol.

#### **15. GWAHARDD Y CYHOEDD A'R WASG**

Gwahardd y cyhoedd a'r wasg o'r cyfarfod oherwydd natur cydgyfrinachol yr eitem olaf o fusnes.

### **RHAN 2**

#### **16. CANOLFAN BRYN Y BEILI – BRYDLES NEWYDD GYDA CHYNGOR SIR Y FFLINT**

Ystyried adroddiad diweddaredig gan Glerc a Swyddog Cyllid y Dref (ynghlwm).

#### **17. OFFER GOLEUADAU NADOLIG - PRYNU**

Cymeradwyo dyfarnu contract ar gyfer cyflenwi Goleuadau Nadolig fel y cytunwyd gan yr Is-grŵp Goleuadau Nadolig a chytuno ar ddewis y tri hynny a gyflwynwyd yn yr adroddiad gan Glerc a Swyddog Cyllid y Dref (ynghlwm).

#### **18. CONTRACT CYNNAL A CHADW'R GOLEUADAU NADOLIG**

Penodi contractwr trydanol cymwysedig a phrofiadol sydd ag achrediad HERS, yswiriant llawn ac asesiadau risg, i ymgymryd â'r contract ar gyfer gosod, cynnal a chadw, tynnu i lawr, storio a rhoi cyngor ynghylch y stoc goleuadau Nadolig naill ai am dair neu bum mlynedd.

Adroddiad gan Glerc a Swyddog Cyllid y Dref (ynghlwm).

#### **19. YMGYRCH HYRWYDDOL AR GYFER 'YR WYDDGRUG YN LLWYR'**

Derbyn adolygiad ar yr ymatebion i'r tendr a phenodi contractwr ar gyfer ymgyrch hyrwyddol 'Yr Wyddgrug yn Llwy'r' gan fod y Pwyllgor Cymuned, Datblygu ac Adfywio wedi cymeradwyo'r gyllideb yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Dachwedd 2020.

#### **SYLWER:**

Caiff aelodau'r wasg a'r cyhoedd wyllo'r cyfarfod hwn ar y sgrin (ond ni chânt gymryd rhan) trwy drefniant ymlaen llaw gyda Chlerc a Swyddog Cyllid y Dref.